

## **TUDALEN 49**

Cofnodion cyfarfod eithriadol **Cyngor y Ddinas** o bell, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 15 Tachwedd 2021** am 6.30pm.

**YN BRESENNOL:** - Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum, y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts

Cynghorwyr : Les Day, Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, John Martin, Enid Parry, Gareth Roberts, Mair Rowlands, Luke Tugwell, George Turner, John Wyn Williams

Swyddogion:- Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

### **182/21 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### **183/21 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **184/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **195/21 CYHOEDDIADAU MAER Y DDINAS**

Gyda thristwch, cyfeiriodd Maer y Ddinas at farwolaeth Mr Arwyn Evans, cyn Gynghorydd a chyn Faer Dinas Bangor. Dywedodd fod y Cyngor yn anfon ei gydymdeimlad â'r teulu; a chafwyd munud o dawelwch i gofio am Mr Evans.

### **196/21 CYMERADWY CYLCH GORCHWYL GRŴP GORCHWYL A GORFFEN PENODI CYFARWYDDWR DINESIG**

#### ***Trafodaeth gaeedig***

Yn amodol ar rai newidiadau, **PENDERFYNWYD** derbyn y Cylch Gorchwyl ac awdurdodi'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i barhau â'r gwaith o hysbysebu am Gyfarwyddwr Dinesig dros dro, a hynny yn ddiymdroi.

### **197/21 UNRHYW FATER ARALL**

Cyfeiriodd aelodau at achlysur Sul y Cofio y diwrnod cynt. Roedd un aelod a oedd yn bresennol yn y gwasanaeth yn teimlo nad oedd y drefn gywir wedi'i dilyn mewn sawl man ac roedd wedi gwneud rhestr o'r gwallau hyn. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad Cyngor Dinas Bangor oedd yn gwbl gyfrifol gan fod staff y Gadeirlan yn ymwneud â'r trefniadau hefyd. Atebodd Eu Teilyngdod y Maer fod cyfarfod eisoes wedi'i drefnu trannoeth gydag Is-Ddeon Cadeirlan Bangor. Gofynnodd yr aelodau am gael adborth o'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** rhoi'r eitem hon ar agenda'r cyfarfod nesaf fel y gellid trafod yr adborth, ynghyd â mater ehangach rheoli digwyddiadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.59 pm**